

Cyngor Sir Caerfyrddin

Adroddiad cynnydd 2il flwyddyn ar gyfer Strategaeth Gorf- foraethol 2015-2020

Yn cynnwys ein Crynodeb o Adroddiad Blynyddol
2016-17

HYDREF 2017



Cynnwys

Rhagarweiniad.....	2
Cipolwg ar Gynnydd.....	4
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.....	6
Adeiladu Gwell Cyngor.....	8
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach.....	10
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu.....	12
Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac	14
yn teimlo'n fwy Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy.....	16
Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus.....	18
Fe ddwedsoch chi, Fe wnaethon ni.....	20
Atodiadau.....	21

**Os hoffwch chi dderbyn y ddogfen hwn mewn fformat arall print
bras, ar dâp sain neu mewn Braille, cysylltwch â
Rheoli Perfformiad ar 01267 22486**

Rhagarweiniad

Pan wnaethom ni a'n partneriaid ymrwymo i Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin, bu i'r Cyngor alinio ei gynlluniau mewnol i fwyhau ei gyfraniad i'r cytundeb. Y weledigaeth yw Sir Gaerfyrddin sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach a chyflawn trwy gydweithio i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy.

Ym mis Medi 2015, adnewyddom ein Strategaeth Gorfforaethol sy'n pennu dyheadau a blaenoriaethau strategol y Cyngor, gan ategu'r weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Roedd y Strategaeth hon yn nodi'r prif feysydd ffocws a mesurau'r prif ganlyniadau, y byddai'r Cyngor yn eu defnyddio i gloriannu ei lwyddiant. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r ail adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed.





























Am y pum mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n nodi ein cynnydd o ran yr holl ganlyniadau a nodau a bennir yn y Strategaeth Gymunedol Integredig. Mae'r Adroddiad Blynyddol llawn yn ddogfen hir a manwl, fodd bynnag, mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb.



Strategaeth Gorfforaethol 2015 - 2020 Cyngor Sir Caerfyrddin
I gael mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2016/17





Cipolwg ar Gynnydd

Pan gyhoeddom Strategaeth Gorfforaethol 2015-20, pennwyd y mesurau canlyniadau canlynol gennym i gloriannu ein cynnydd:-

Thema	Mesurau Canlyniadau	Cynnydd
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau 	<ul style="list-style-type: none">£ Y cyhoedd yn fwy bodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor£ Lleihau 'costau cynnal' y sefydliad£ Cynyddu gweithgarwch ar-lein i roi sylw i ymholiadau a thrafodion gan y cyhoedd	<ul style="list-style-type: none">
Adeiladu Gwell Cyngor 	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd Gwell lefelau boddhad staff (Arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl Mawrth '17) Gostyngiad yn lefelau absenoldeb salwch y staff	<ul style="list-style-type: none">Gwaelodlin 85%
Iachach 	<ul style="list-style-type: none"> Gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden	<ul style="list-style-type: none">
Dysgu 	<ul style="list-style-type: none"> Gwell cyrhaeddiad addysgol Gwell cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol (ysgolion cynradd) Gwell cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol (ysgolion uwchradd) Llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant Ysgolion mewn cyflwr gwell	<ul style="list-style-type: none">

Diogel







-  Darparu cymorth priodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd
-  Gostyngiad yn nifer y rheiny a gafodd eu hanafu/lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd
-  Gostyngiad yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd
-  Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol



Yr Amgylchedd






-  Cyfraddau ailgylchu uwch
-  Gwell mynediad digidol
-  Gwell cysylltiadau trafniadaeth
-  Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy



Economi



-  Cynyddu cyflogaeth
-  Lleihad yn y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra
-  Cynyddu cynhyrchiant a gweithgarwch economaidd




I roi gwybod i'r cyhoedd pa mor dda rydym yn perfformio, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, sydd ar gael fesul ardal awdurdod lleol, a chanlyniadau'r Cyngor o'u cymharu â chyfres o fesurau cenedlaethol a ddefnyddir gan holl Gyngorau Cymru. Gweler Atodiad A a B Ymdrinnir â'r canlyniadau, esboniadau a chymariaethau yn fanwl yn y fersiwn lawn o'r cynllun hwn.

Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau...


Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol a pharhaus o ran y gyllideb, ac mae sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn bwysicach nag erioed. Byddwn yn sicrhau bod y sefydliad yn gweithio mor effeithlon â phosibl er mwyn amddiffyn a chynnal gwasanaethau rheng flaen lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl inni barhau i wneud rhai o'r pethau yr ydym wedi eu gwneud yn y gorffennol, a byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid i ganfod ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion lle bo'n briodol.

2016/17

Y Gwasanaethau a Ddarperir :



Ffynonellau Cyllid :



Ein nod yw 'Darparu Technoleg Drawsnewidiol i Wella'r Gwasanaeth a Ddarperir gan y Cyngor' ac rydym wedi sicrhau bod gwasanaeth trafodiadol ar-lein yn cael ei weithredu fel rhan o'r Gwasanaeth Gwastraff Gardd Gwyrdd a lansiodd ym mis Mawrth 2017.

Gwnewch gais am gasgliadau GWASTRAFF GARDD

Gan fod mwy o'n gwasanaethau yn cael eu cyrchu ar-lein, rydym wedi lansio gwasanaeth casglu gwastraff gardd newydd ac mae modd gwneud cais amdano'n ddiraffferth ar-lein drwy fynd i

www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/biniau-aigylchu-a-sbwriel/gwastraff-gardd

Bydd y sawl sy'n ymuno â'r cynllun yn cael whilfin 240 litr a fydd yn cael ei wagio bob pythefnos rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd.

Os byddwch yn talu'r gost flynyddol (£48) wrth gofrestru, byddwch yn derbyn gostyngiad o 15% ac yn talu £40.80, neu gallwch dalu ychydig ar y tro drwy Ddebyd Uniongyrchol a bydd hyn yn costio £48 i chi. Hefyd mae biniau compost ar gael i'w prynu am £12 yn unig, yn cynnwys pris dosbarthu, a gellir eu harchebu'n uniongyrchol ar-lein.



Cynnydd yn ystod 2016/17

Cyflawnwyd **£12.9 miliwn o arbedion** yn 2016/17, ochr yn ochr â chyfeirio mwy o adnoddau i wasanaethau rheng flaen, er gwaethaf y pwysau ar gyllidebau'r Cyngor yn gyffredinol. Yn y Llythyr Archwiliad Blynyddol dyddiedig 19 Rhagfyr 2016, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru:

'Mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid, ac er gwaethaf y pwysau cynyddol ar gyllidebau, yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009'



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Sefydlwyd rhaglen 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' (TIC) gennym i ymateb i'r llymaf o heriau ariannol, a hynny yn wyneb disgwyliaid cynyddol uwch y cyhoedd, cynnydd yn y galw ar wasanaethau, a 'gwella'r hyn a wnawn am lai o arian'. Bu'r tîm TIC yn cefnogi 17 prosiect ac adolygiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr oedd rhai ohonynt yn brosiectau newydd a rhai eraill yn brosiectau oedd ar waith o flynyddoedd blaenorol. Nod y rhaglen yw cefnogi darparu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor drwy **'Wella'r modd y mae'n defnyddio ac yn rheoli adnoddau er mwyn darparu Gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol.'** Gwnaed arbedion ariannol gwerth mwy na £2.1 miliwn yn ystod 2016/17, yn ogystal â mwy na £4.1 miliwn mewn blynyddoedd blaenorol.



Mesur Canlyniadau

16% o

gynnydd mewn
taliadau ar-lein

29,020 o drafodion

(Y flwyddyn flaenorol – 25,013)



1.3 million

o Ymwelwyr â'n gwefan



Rydym wedi
parhau i leihau
'costau cynnal' y
sefydliad

16/17 £12.9M o arbedion

A

65% o'n mesurau cenedlaethol wedi gwella

Bodlonrwydd cyhoeddus

51% o'r trigolion yn teimlo bod y
Cyngor yn darparu gwasanaethau o
ansawdd uchel Arolwg Cenedlaethol Cymru



**Yr 8fed uchaf
yng Nghymru**

Cafwyd cwmp yn gyffredinol ar draws Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae ein canlyniad wedi cwmpo o 58% yn 2014/15 a'r 6ed safle. Fodd bynnag, mae'n uwch na chyfartaledd Cymru.

I gael mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2016/17

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

Adeiladu Gwell Cyngor...

Mae'r Cyngor bob amser wedi gweithio tuag at adeiladu Sir Gaerfyrddin well ac mae ganddo brofiad llwyddiannus o gyflawni. Bydd cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adeiladu ar hyn. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau ein bod yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol ym mhopeth a wnawn ac mae wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Mae ugain o Gynghorwyr Sir Gaerfyrddin wedi rhoi'r gorau iddi ar ôl bron 300 mlynedd o wasanaeth rhyngddynt

Bu i ugain o Gynghorwyr Sir ymddeol adeg etholiad Mehefin 2017 a chawsant eu cydnabod am eu gwaith mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes yr wythnos cyn diwrnod yr etholiad.



Roedd un yn Arweinydd, dau yn Ddirprwy Arweinydd, pump yn gyn-aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a phump yn Gadeiryddion y Cyngor.

Cynnydd yn ystod 2016/17

- Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad ein bod yn *'bodloni ein gofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus'*
- Yn ystod 16/17 bu i ni addasu i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
 - Cyhoeddom Amcanion Llesiant y Cyngor erbyn 31 Mawrth 2017
 - Rydym wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sy'n dwyn ynghyd wasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin
 - Ar ran y BGC cynhaliwyd Asesiad Llesiant gennym lle bu ymgynghori â 2,500+ o drigolion
- Fel rhan o'n Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17, adolygodd Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad y Cyngor gynnwys gwefan y Cyngor o ran cwestiynau cyhoeddus, er mwyn gwella'r wybodaeth a roddir i'r cyhoedd. Teimlai Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad ei fod yn glir, pan fo mater o ddiddordeb cyhoeddus wedi'i gynnwys ar agenda Pwyllgor Craffu, fod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o sut oedd cymryd rhan a chyflwyno cwestiynau i'w cynnwys ar yr agenda
- Cymeradwywyd Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor, a oedd yn cynnwys cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Cynhaliodd y Gwasanaethau Etholiadol Etholiad Cyffredinol a refferendwm yr UE.
- Bu i'r Adran Cymunedau arolygu ei staff; roedd 622 wedi ymateb (37% o gyfanswm y staff) ac 88% wedi dynodi eu bod yn fodlon yn eu swyddi yn gyffredinol

Mesur Canlyniadau

Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Ymatebion i ymgynghoriadau wedi dyblu

Y Cyngor wedi cael mwy na 26,000 o arolygon yn sgil y gwahanol ymgynghoriadau



Cynnydd o ran Salwch y Staff o 10.1 diwrnod i 10.8 diwrnod y flwyddyn

Prif achos salwch yw straen, iechyd meddwl a gorflinder



Gwell lefelau boddhad staff

85% o'r staff wedi dweud bod eu swydd yn ddiddorol ac yn defnyddio eu sgiliau a'u galluoedd

awrth 17 - arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl 403 o ymatebion



 I gael mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2016/17

Canlyniad: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach ...

Mae ein ffordd o fyw yn newid. Mae pobl yn byw'n hwy, gydag ansawdd bywyd uwch, ond mae ein hanghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth. Yr her yr ydym yn ei hwynebu nawr yw atal afiechyd yn y lle cyntaf.



Mae Helen (nid ei henw iawn) a'i theulu wedi symud yn ddiweddar i un o'r cartrefi cyntaf a brynwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin o dan yr Ymrwymiad Tai Fforddiadwy.

Symudodd hi, ei phartner a'i thri o blant i dŷ canol teras tair ystafell wely, maint addas i deulu, yn Nhref Gaerfyrddin, sy'n 'berffaith' i anghenion ei theulu yn ei hól hi.

"Daethom ni o gartref dwy ystafell wely yng Ngorllewin Gaerfyrddin nad oedd yn ddelfrydol gan fod ein merch yn gorfod rhannu ein hystafell wely. Erbyn hyn, mae ganddi ei hystafell ei hun drws nesaf i'w brodyr."

"Dangoswyd y cartref hwn i ni ac roeddem ni wrth ein bodd – roedd yn berffaith i ni. Cawsom ni'r allweddi wythnos yn ddiweddarach, roeddem ni'n methu credu pa mor gyflym ddigwyddodd hynny."

"Rydym yn setlo yn dda. Mae'r tŷ yn hyfryd, ac nid ydym wedi gorfod addurno dim byd. Rydym yn falch iawn."

Roedd cynyddu nifer y tai fforddiadwy a thai rhent sydd ar gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy yn un o Brif Flaenoriaethau Amcanion Gwella y Cyngor yn 2016/17

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn paratoi at weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan godi ymwybyddiaeth ymhlith staff a phartneriaid ac adlinio ein gwasanaethau i ymateb i'r gofynion newydd. Mae'r Ddeddf wedi rhoi cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth ac sy'n adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl, a all wella canlyniadau mewn modd arwyddocaol i'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Cynnydd yn ystod 2016/17

Mae'r gwaith o drawsnewid ein gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos bod perfformiad wedi gwella mewn meysydd targed lleol a chenedlaethol allweddol.

- ♥ Gwell perfformiad mewn gofal heb ei drefnu mewn perthynas ag Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal
- ♥ Lleihad mewn comisiynu gofal a chymorth yn y cartref o 1110 i 1020
- ♥ Lleihad yn y nifer a dderbyniwyd i ofal preswyl tymor hir o 1000 i 992
- ♥ Nifer yr Asesiadau oedolion a gwblhawyd = 3906 Nifer yr Asesiadau gofalwyr a gwblhawyd = 384
- ♥ Rydym wedi datblygu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd
- ♥ Mae perthynas gref hefyd rhwng ansawdd tai a salwch. Rydym wedi buddsoddi mwy na £200 miliwn mewn gwella a moderneiddio cartrefi ein tenantiaid drwy Safon Tai Sir Gaerfyrddin.
- ♥ Yn ogystal rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y tai fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu ar draws y sir, ac wedi cynyddu faint o eiddo gwag sy'n cael ei adfer i'w ddefnyddio eto. Rydym wedi datblygu Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2016-21, ar ôl ymgynghori helaeth â'r cyhoedd
- ♥ Comisiynwyd CBA Associates ym mis Hydref 2016 i gynnal arolygon anghenion tai gwledig dros y blynnyddoedd nesaf. Deilliodd y Comisiwn o broses dendro ffurfiol

Mesur Canlyniadau



+173

o dai fforddiadwy ychwanegol



Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden



1.5M

wedi mynychu Cyfleusterau Hamdden

*Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau eleni, ac mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau gan gynnwys hyfforddiant mewn ysgolion, ynghyd â'r cyhoeddusrwydd yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Canlyniad: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu...

Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon. Rydym am wella canlyniadau ar gyfer pobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes.







DISGYBLION YN DATHLU CANLYNIADAU TGAU GORAU'R SIR ERIOED

Roedd perfformiad cyffredinol y myfyrwyr a gyflawnodd brif ddangosydd Cynhwysol Lefel 2 - sy'n gofyn am o leiaf 5 TGAU gradd A*-C, gan gynnwys mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf - wedi pasio'r trothwy o 65% am y tro cyntaf erioed (65.1%). O ystyried bod y perfformiad o ran y dangosydd hwn yn 51% yn 2012 mae'n amlwg bod canlyniadau'r dysgwyr wedi cael eu trawsnewid. Hwn yw canlyniad gorau Sir Gaerfyrddin erioed a'r bumed flwyddyn yn olynol y mae'r canlyniadau wedi gwella, a hefyd hon yw'r drydedd flwyddyn yn olynol pryd y mae dysgwyr Sir Gaerfyrddin wedi cyflawni eu canlyniadau TGAU gorau erioed. Rydym hefyd wedi cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion y mae hawl ganddynt i brydau ysgol am ddim o 31.6% i 41.5%.

Ar Lefel Safon Uwch mae ein perfformiad cryf, traddodiadol wedi parhau. Mae'n destun balchder arbennig bod nifer a chyfran y myfyrwyr a gafodd y graddau uchaf, sef A* ac A - E, wedi cynyddu'n sylweddol eleni i 99.5% o 98.1% y flwyddyn flaenorol, sef y **canlyniad gorau yng Nghymru**.

Cynnydd yn ystod 2016/17

-  Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 bu i **89%** o ddisgyblion **Cyfnod Allweddol 2** ac **86.3%** o ddisgyblion **Cyfnod Allweddol 3** gyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd sef canlyniad gorau yr Awdurdod Lleol hyd yn hyn gan ddilyn ein tuedd barhaus ar i fyny
-  Mae ein **Rhaglen Moderneiddio Addysg** yn ei hanterth, gyda phrosiectau datblygu mawr o ran ysgolion yn cael eu cwblhau yn Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Maes y Gwendraeth, Ysgol Carreg Hirfaen ac Ysgol Bryngwyn, gyda miloedd o blant ar eu hennill.
-  Mae **Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed**, sy'n sicrhau bod yr holl bobl ifanc y mae perygl y gallent ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, bellach yn cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol uwchradd i nodi pobl ifanc sy'n gallu cael budd o gymorth wedi'i dargedu drwy brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cynnydd, ac mae tua 100 o bobl ifanc wedi cael cymorth
-  Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSP) wedi lansio'r **Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol**, lle rydym yn anelu at drawsnewid llwyddiant economaidd yn y dyfodol drwy gyflawni prosiectau trawsnewidiol allweddol, gan gynnwys y Fargen Ddinesig - drwy wella cyrhaeddiad addysgol a chynyddu sgiliau yn unol â'r prosiectau

Mesur Canlyniadau



65.1%

o ddisgyblion

wedi cyflawni 5 TGAU gradd A* i C
gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a
Mathemateg
Wedi gwella o 61.1% y flwyddyn flaenorol



94.8% Presenoldeb mewn
Ysgolion Cynradd (wedi gostwng o
95.2% yn flaenorol)

94.5% Presenoldeb mewn
Ysgolion Uwchradd (wedi gwella o
94.2% yn flaenorol)

2.1% o ddisgyblion blwyddyn 11

2.0% o ddisgyblion blwyddyn 13

**Heb fod mewn addysg, cyflogaeth
na hyfforddiant (NEET)**

(Y flwyddyn flaenorol Blwyddyn
11 – 3.5% Blwyddyn 13 – 2.8%)



57%
o gyflwr adeiladau ysgolion
wedi'i raddio'n **'dda'**
neu'n **'foddhaol'**
Wedi gwella o 56% y flwyddyn
flaenorol

 I gael mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2016/17

Canlyniad: Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel...

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y DU. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â gorffwys ar ein rhwyfau ac mae angen i ni ddal ati i gydweithio â'n partneriaid i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd gan gymunedau lleol.

Scarlets Llanelli yn cefnogi ymgyrch y Cyngor i fynd i'r afael ag yfed a gyrru dros y Nadolig


Ymunodd y bachwr Ken Owens a'r maswr Rhys Patchell â'r Cyngorydd Emlyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, i lansio'r ymgyrch dymhorol ym Mharc y Scarlets





Mae'r uned diogelwch ffyrdd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau yfed a gyrru gan ddefnyddio cyffelybiaethau chwaraeon fel 'Rhowch y Garden Goch i Yfed a Gyrru', 'Yfed a Gyrru – Rho Ddiwedd ar hynny', 'Chwythu'r Chwiban ar Yfed a Gyrru.'


Mae gweithio mewn **partneriaeth** yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â meysydd allweddol diogelwch cymunedol gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, gwrthderfysgaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau.

Cynnydd yn ystod 2016/17

 "Gwelsom awdurdod lleol a oedd yn ymrwymedig i gynorthwyo plant a'u **teuluoedd i aros gyda'i gilydd pryd bynnag yr oedd yn ddiogel gwneud hynny**. Roedd yr ymagwedd at ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn ategu'r ymrwymiad hwn" *Arolygiad AGGCC o Wasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin - Medi 2016*

 Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol **wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn**. Oherwydd y cymhlethdodau a'r nifer fawr o newidynnau yn y gymdeithas sy'n cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n anodd rhoi rheswm pam y gallai hyn fod. Fodd bynnag, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, fel gweddill Dyfed-Powys, yn dilyn patrwm tymhorol i raddau helaeth. Mae'r Cyngor, yr Heddlu a phartneriaid eraill yn gweithio'n agos iawn wrth ddelio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol

 Y nifer a **laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd** Sir Gaerfyrddin yn 2016/17 oedd **102**, sef yr un nifer ag yn 2015/16. Rydym ni, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ymrwymedig i wella diogelwch ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Rydym yn gweithio i wella diogelwch ffyrdd er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd yn Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru

 Mae arfer 'Signs of Safety' wedi cael ei roi ar waith ers Mehefin 2016, ac **rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant** (yn dal i fyw gyda'u teulu â chynllun diogelu ar waith). Mae'r dull wedi symleiddio a gwella'r gwaith uniongyrchol a wneir, fel bod teuluoedd yn gliriach ynghylch yr hyn sy'n digwydd. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol gan fod teuluoedd wedi ei weld yn fwy ymgysylltiol a chyfranogol, ac mae'r ffocws ar gynlluniau teulu a chynnwys y plentyn y mae pryder amdano.

 Roedd **629 o ddigwyddiadau treisgar cysylltiedig ag alcohol yn Sir Gaerfyrddin y llynedd** (dim ond un digwyddiad yn llai na'r flwyddyn flaenorol). Mae gweithio mewn partneriaeth yn dal i fynd i'r afael â'r broblem.

Mesur Canlyniadau



Lansio gwefan newydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar 14eg Tachwedd 2016

Anafusion ar y ffyrdd bob blwyddyn

 **102**

wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn ystod 2016-17

Yr un nifer ag yn 2015/16

5.7%
gynnydd mewn troseddau a gofnodwyd



2015/16 = 8,160
2016/17 = 8,624



Digwyddiadau i fyny
15.2%

Canlyniad: Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Mae Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus am ei chymunedau amrywiol a'i hamgylchedd naturiol hyfryd, ac rydym am sicrhau ein bod yn datblygu'n gynaliadwy fel y gall pawb yn y sir fwynhau ansawdd bywyd gwell yn awr ac am genedlaethau i ddod.

Rhwydwaith Llwybr Beicio

Cymerwyd cam sylweddol o ran y cynlluniau uchelgeisiol i ddarparu llwybr beicio rhwng Caerfyrddin a Llandeilo yn sgil grant o £581,000.











Bydd y grant yn mynd tuag at gamau dylunio cynnar y cynllun, a fydd yn helpu i wneud Sir Gaerfyrddin yn brif gyrchfan beicio Cymru.

Rhagwelir y bydd y prosiect – a fydd yn costio tua £5 i £7 miliwn - yn cynhyrchu rhwng £860,000 a £2 filiwn yn yr economi leol bob blwyddyn.

Hefyd bydd yn rhoi cyfle i bobl deithio mewn modd cynaliadwy ac iach, gan greu cyswllt â phentrefi rhwng y ddwy brif dref.

Cynnydd yn ystod 2016/17

-  Mae'r buddsoddiad cyfalaf mewn priffyrdd wedi darparu **38 o gynlluniau priffyrdd**
-  Cafodd yr holl gynlluniau llwybrau beicio oedd yn yr arfaeth eu cwblhau'n llwyddiannus yn 2016/17; un o'r rheiny oedd y llwybrau beicio o Langennech i Ddafen, a bu i'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru olygu bod modd estyn y llwybr ar hyd Heol Llethri tuag at Ddyffryn y Swistir. Mae darn 1 cilomedr o Lwybr Dyffryn Tywi wedi ei gwblhau yn Abergwili yn 2016-17
-  Rydym wedi parhau i ragori ar ein targed o 79% ar gyfer tocynnau teithio rhatach i gyflawni 81.4%
-  Mae canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol wedi gwella o 10.7% yn 2015/16 i 9.2% yn 2016/17.
-  Mae mân ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael wedi gwella o 13.7% yn y flwyddyn flaenorol i 11.6% y flwyddyn hon
-  Rydym wedi cefnogi 213 o drigolion drwy roi sgiliau cynhwysiant digidol iddynt, sy'n eu galluogi i ddychwelyd i, neu gamu i, gyflogaeth neu hyfforddiant, ac fel y cyhoeddwyd yn ddiweddar yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae mynediad aelwydydd i'r Rhynggrwyd yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella o 76% i 83% - (15fed safle yng Nghymru)
-  Mae'r Cyngor yn dal i fuddsoddi mewn systemau solar ffotofoltäig (PV) ar ei adeiladau annomestig, ac mae wedi mwy na **dyblu capasiti** drwy ychwanegu 633 kWp arall yn 2016/17
-  Adeiladwyd **5.5 cilometr o lwybrau beicio** yn 2016-17

Mesur Canlyniadau



Cyfraddau ailgylchu uwch

66.26%

(63.52% y flwyddyn flaenorol)

Gwell mynediad digidol
cynnydd o 7% o ran mynediad ael-
wydydd i'r rhynggrwyd

+ 213

cefnogi trigolion â sgiliau digidol



Gwell cysylltiadau trafniadaeth

Wedi gosod wyneb newydd ar

11 cilomedr

o Briffyrdd

Y defnydd o ynni
adnewyddadwy
wedi mwy na dyblu

o 280,700 kWh i 670,400 kWh



Canlyniad: Mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus..

Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Yn y gorffennol, mae gormod o bobl ifanc wedi cael eu gorfodi i adael Sir Gaerfyrddin i ddod o hyd i waith. Gan weithio ar draws yr holl sectorau – cyhoeddus, gwirfoddol, a phreifat – rydym am wella ffyniant i bawb yn y sir.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Cafwyd un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes modern ein Cyngor ym mis Mawrth pan lofnodwyd Bargen Ddinesig ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae'n fargen sy'n rhoi rheswm i'n dinasyddion gredu mewn dyfodol mwy llewyrchus, rheswm i'n hieuenctid ddychwelyd o'u hastudiaethau gan wybod y bydd cyfleoedd a swyddi o ansawdd yn eu disgwyl, a hyder i'n busnesau fuddsoddi mewn rhanbarth sy'n adfywio'n fefnol ac sy'n bwrw ei olwg allan i farchnad fyd-eang â syniadau newydd ac arloesedd ledled cynifer o sectorau.

Ceir tri phrosiect penodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli; prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin; a menter sgiliau a doniau a fydd yn cefnogi datblygiad sgiliau ar gyfer pob un o'r 11 prosiect.



Daeth y Prif Weinidog Theresa May, Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones, Ysgrifennydd Gwladol Cymru Alan Cairns ac Arweinwyr Cyngorau Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro at ei gilydd yn Stadiwm Liberty i lofnodi'r Fargen Ddinesig.

BETH MAE'R FARGEN DDINESIG YN EI OLYGU...



£1.3bn

dros 15 mlynedd
Cyfanswm gwerth

£241m

Llywodraeth Cymru
a'r DU

£360m

Cymorth gan y Sector
Cyhoeddus



£673m

Cymorth Sector
Preifat

Bron
10,000

o swyddi newydd
wedi'u creu

£1.8bn

Hwb Gwerth
Ychwanegol Gros

Cynnydd yn ystod 2016/17

➤ Drwy gymorth gan ein swyddogaeth Rheoli Cyfrif Busnes ynghyd ag opsiynau cyllido, roeddem wedi gallu creu 253.5 o swyddi, diogelu 192.5 o swyddi, 28 o swyddi mewn lleoliad newydd, cael 1,598 i wirfoddoli, 344 i gyflogaeth a 3,127 i hyfforddiant

➤ Cefnogi creu **33 o fentrau newydd** a sicrhau **dros £23.5M** o fuddsoddiad/cyllid

➤ Lansiwyd dau gynllun cronfa ddatblygu yn ystod yr haf –

1) cafodd Cynllun Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin (gwerth £2M) sawl cynnig grant ffurfiol a oedd yn dod i fwy na £475k a dechreuodd y gwaith adeiladu ar nifer o'r brosiectau hynny, gydag ymrwymiad llawn i'r grant i 23 arall.

2) cafodd Cynllun Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid (gwerth £3M) sawl ymgeisydd wedi'u gwahodd i symud ymlaen i'r cam ymgeisio manwl, ac mae 2 brosiect wedi cael cynnig grant ffurfiol a 6 phrosiect arall yn symud ymlaen â'u ceisiadau.

➤ Rydym wedi llunio datganiad Polisi Trechu Tlodi a Phanel Ymgynghorol i oruchwylio'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, sy'n amlinellu ein hymagwedd gyffredinol at drechu tlodi drwy raglenni a mentrau trechu tlodi allweddol

➤ Rydym wedi bod yn gweithio gyda chymunedau gwledig drwy ein rhaglen LEADER i nodi ffyrdd arloesol o ymdrin â thlodi gwledig ac mae nifer o brosiectau wedi'u cymeradwyo

Mesur Canlyniadau

Cyflogaeth i fyny bron 5%

(cynyddu o 69.1% i 74%)



Mae budd-daliadau diweithdra wedi **lleihau i**

11.4%

o'r boblogaeth oedran gweithio (i lawr o 11.8% yn 2015)

Cyflog wythnosol gros i fyny 6.2%

(o £464.8 i £495.5)

9% o gynnydd o ran pobl sy'n ennill NVQ lefel 4+

(cynyddu o 34,200 i 37,600 o bobl)



➤ I gael mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2016/17

Fe Ddewedsoch Chi, Fe Wnaethom Ni...

Rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau o'r newidiadau cadarnhaol rydym wedi eu gwneud ar ôl clywed adborth dinasyddion yn ein hymgyrch **'Fe ddwedsoch chi....Fe wnaethom ni**



Fe ddwedsoch chi... Fe wnaethom ni...

Adeiladu Gwell Cyngor



Roeddech am i ni ddarparu mwy o warchodwyr plant cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn y sir.

Rydym wedi cynyddu nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n siarad Cymraeg o 29 i 55 ac wedi cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sir o 160 o leoedd i 295 o leoedd. Byddwn yn dal i recriwtio, cynorthwyo a hyfforddi gwarchodwyr plant newydd sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd a dargedwyd lle na ddiwellir yr angen ar hyn o bryd.

Addysg



Roeddech am i ni wella perfformiad dysgwyr dan fwy o anfantais (disgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim)

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'n hysgolion i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer dysgwyr cymwys i gael prydau ysgol am ddim ar Lefel 2+ (41.5%).

Economi



Roeddech am fwy o gymorth â chyflogaeth, hyfforddiant perthnasol a swyddi.

Rydym wedi llwyddo i ddenu arian gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ail-sefydlu Prosiect Workways+. Bydd y prosiect yn ymgysylltu â 766 o gyfranogwyr hyd at Dachwedd 2018, gyda'r nod o helpu 22% i gael chyflogaeth.

Atodiadau

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 yw'r canlynol, sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol, ond ni ellir priodoli'r rhain i gyd i berfformiad y Cyngor.
Lle bo'r un cwestiwn wedi cael ei ofyn yn yr arolwg blaenorol (2014/15), mae'r tabl isod yn dangos a ydym wedi gwella ein perfformiad a'n safle.

	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2016/17			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}
		Canlyniad arolwg 2014/15	Canlyniad arolwg 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau									
		Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2014/15															at ein sefyllfa 2016/17									
1	Cytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel	58	51	↓	24																					61
2	Cytuno bod y cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio	42	35	↓	21																					48
3	Cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol	37	36	↓	24																					53
4	Yn teimlo y gall ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal	21	19	↓	12																					28
5	Cysylltwyd â chynghorydd yn y flwyddyn ddiwethaf	15	16	↑	10																					24
6	O'r rhai sydd wedi cysylltu â'u cynghorydd - A yw'n deall beth mae cynghorydd yn ei wneud	63	48	↓	40																					77
7	O'r rhai sydd wedi cysylltu â'u cynghorydd - A yw'r cynghorydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol	59	44	↓	37																					72
8	Bodddhad ag ysgol gynradd y plant	Nid yw ar gael	93	Nid yw ar gael	81																					99
9	Bodddhad â'r system addysg (Pob agwedd o'r system addysg) (Graddfa 0-10 wael- dda)	6.6	6.0	↓	5.7																					6.5
10	Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a teithio)	Nid yw ar gael	79	Nid yw ar gael	57																					91
11	Teimlo synnwyr o gymuned	Nid yw ar gael	48	Nid yw ar gael	37																					67
12	Perthyn i ardal leol	84	70	↓	63																					82
13	Pobl yr ardal sydd o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu	87	68	↓	62																					87

ATODIAD A

	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2016/17			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}
		Canlyniad arolwg 2014/15	Canlyniad arolwg 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau									
		Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2014/15															at ein sefyllfa 2016/17									
14	Pobl yr ardal yn trin ei gilydd â pharch	83	72	↓	56																					87
15	Aelwyd mewn amddifadedd materol	17	15	↑	21																					11
16	Yn dod i ben â thalu biliau a ymrwymadau credyd (heb fod yn bensiywyr)	Nid yw ar gael	51	Nid yw ar gael	47																					76
17	Yn dod i ben â thalu biliau a ymrwymadau credyd (bensiywyr)	Nid yw ar gael	75	Nid yw ar gael	75																					91
18	A oes gan y cartref fynediad i'r rhyngwyd	76	83	↑	77																					89
19	Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ac eithrio cerdded	Nid yw ar gael	55	Nid yw ar gael	39																					60
20	Cymryd rhan mewn unrhyw gêm neu weithgaredd dan do	Nid yw ar gael	38	Nid yw ar gael	25																					47
21	Cymryd rhan mewn unrhyw gêm neu weithgaredd awyr agored	Nid yw ar gael	30	Nid yw ar gael	19																					33
22	Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd awyr agored	Nid yw ar gael	54	Nid yw ar gael	25																					54
23	Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon	Nid yw ar gael	66	Nid yw ar gael	45																					70
24	% o bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos	Nid yw ar gael	39.4	Nid yw ar gael	18																					39
25	Cytuno bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal (henoed, plant, anabl a gofalwyr)	53	56	↑	44																					68
26	Gallu siarad Cymraeg	Nid yw ar gael	40	Nid yw ar gael	9																					75
27	% o bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw	Nid yw ar gael	88.8	Nid yw ar gael	66																					95
28	% o bobl sy'n gwirfoddoli	Nid yw ar gael	33.9	Nid yw ar gael	21																					38
29	% o bobl sy'n unig	Nid yw ar gael	17.1	Nid yw ar gael	23																					10
30	Sgôr lles meddygol oedolion (Sgôr allan o 70)	Nid yw ar gael	50.2	Nid yw ar gael	48.8																					52.2

ATODIAD B

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ganlynol am fesurau y mae'n rhaid i bob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ei chasglu -

- Ein canlyniad yn 2016/17 ac a yw'n well na'n canlyniad yn 2015/16
- Ein chwarter (graddiad seren) o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru
- Ein safle yn 2016/17 o'i gymharu â'n safle yn 2015/16

Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru		A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17?		Pa mor dda yw canlyniad 2016/17?	22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
		Ein canlyniad 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	★ = Gwaethaf ★★★★ = Gorau	Canlyniadau Gwaethaf										Canlyniadau Gorau												
					Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa yn 2015/16										at ein sefyllfa yn 2016/17												
Adeiladu Gwell Cyngor																											
1	Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. (CHR/002)	10.8	↓	★★																							
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach																											
2	Ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCS/002b)	8,289	↑	★★																							
3	% Safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau (PPN/009)	97.50	↑	★★★★																							
4	Nifer y dyddiau a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002)	167	↑	★★★★																							
5	Oedi wrth drosglwyddo gofal (SCA/001)	2.30		I ddilyn																							
6	% Unedau tai fforddiadwy newydd / holl unedau tai newydd (PLA/006b)	34	↑	★★																							
7	% Anheddau sector preifat gwag wedi'u llenwi (PSR/004)	6.53	↑	★★★																							
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu																											
8	% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 2 (EDU/003)	89.0	↑	★★★★																							
9	% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 3 (EDU/004)	86.3	↑	★★																							
10	Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cymwysterau allanol (EDU/011)	596.0#	↑	★★★★																							
11	% Disgyblion a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 (EDU/017)	65.1#	↑	★★★																							
12	Nifer yr ymwelwyr â Llyfrgelloedd Cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCL/001b)	7,646	↑	★★★★																							

ATODIAD B

Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru		A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17?		Pa mor dda yw canlyniad 2016/17?		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}
		Ein canlyniad 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	★ = Gwaethaf ★★★★ = Gorau	Canlyniadau Gwaethaf										Canlyniadau Gorau												
13	% Disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002i)	0.2	↓	★★	←										→												
14	% Disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002ii)	0.0	↔	★★★★																							
15	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EDU/016a)	94.8	↓	★★	←										→												
16	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EDU/016b)	94.5	↑	★★★											→												
17	% Datganiadau a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau) (EDU/015a)	43.9	↑	★	←																						
18	% Datganiadau a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau) (EDU/015b)	71.4	↓	★	←																						
19	% Disgyblion sy'n cyflawni Cymraeg (iaith gyntaf) Cyfnod Allweddol 3 (EDU/006ii)	42.2	↓	★★★★											Yr un fath												
Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel																											
20	% Plant sy'n derbyn gofal sy'n symud ysgol (SCC/002)	3.4	↑	I ddilyn																							
21	% Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (SCC/004)	11.17	Nid tebyg gyda'r flwyddyn flaenorol	I ddilyn																							
Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy																											
22	% Newid yn y sgôr gyfartalog ar y Dystysgrif Arddangos Ynni (CAM/037)	-0.3	↓	★★	←										→												
23	% Prifffyrdd a archwiliwyd ar gyfer safon uchel / derbyniol (STS/005b)	98.6	↓	★★★											←												
24	% Gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (WMT/004b)	4.73	↑	★★	←										→												
25	% Gwastraff wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (WMT/009b)	66.23	↑	★★★★											←												
26	% Tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith (STS/006)	85.92	↓	★	Yr un fath																						
27	% Oedolion 60+ oed â thocyn teithio consesiynol (THS/007)	81.4	↑	★★	←																						
28	% Ffyrdd (A), (B) ac (C) sydd mewn cyflwr gwael (THS/012)	9.2	↑	★	→																						
<p># Mesurau 10 ac 11 - Mae ein canlyniadau yr un peth â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar garfan Blwyddyn Ysgol 11 ac sy'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nad yw'n gymaradwy mewn gwirionedd â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn wahanol i'r data a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar 13eg Medi 2017, sy'n seiliedig ar garfan 'y disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol' ac yn eithrio plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu ysgolion annibynnol, y gellir ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond sydd dal yn dangos gwell canlyniadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin sef 590.6 a 64.5%.</p>																											

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r canlynol:



Adfywio a Pholisi,
Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1JP



Ffôn: **01267 224486**
E-bost: perfformiad@sirgar.gov.uk



Ewch i wefan y Cyngor

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgyngori-a-pherfformiad/rheoli-perfformiad>



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor



Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen Twitter -
#AdroddiadSirGar



Strategaeth Gorfforaethol 2015 - 2020 / Cyngor Sir Caerfyrddin
Ein Adroddiad Blynyddol 2016/17